




Cymun Bendigaid ar Gân


Difiau'r Dyrchafael

21 Mai 2023 am 9.15am




**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau — ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwranddo ar
ddarlleniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llur' nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â themau'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



Henffych i enw Iesu gwiw,
syrthied o'i flaen angylion Duw;
rhowch iddo'r parch, holl dyrfa'r nef:
yn Frenin pawb coronwch ef.

Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,
plygwch yn isel wrth ei draed;
fe'ch tynnodd â thrugaredd gref:
yn Aberth pawb coronwch ef.

Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith,
trwy holl derfynau'r ddaear faith,
gydganu'n llafar iawn eu llef:
yn Fugail pawb coronwch ef.



**Er bod ein beiau'n aml iawn,
mae ganddo iachawdwriaeth lawn;
i'n tywys oll hyd lwybrau'r nef:
yn Arglwydd pawb coronwch ef.**

Geiriau

Edward Perronet (1726-1792)

Cyfieithiad

William Griffiths (1777-1825); Titus Lewis (1773-1811)

Cerddoriaeth | "Yr Hen Ganfed"

Louis Bourgeois (c.1510-1559)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Haleliwia! Atgyfododd Crist.

Atgyfododd yn wir. Haleliwia!

"Codwch eich pennau, O byrth! Ymddyrchefwch, O ddrysau
tragwyddol!"

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni sydd angen gras dolurus, iachaus Duw i'n gwneud yn gyfan;

ni sydd angen cariad dadlennol, darbwyllol Duw i buro ein
hanghyfiawnder;

ni sydd angen presenoldeb bywiol, gwarddol Duw i drigo ynom
a'n rhyddhau.

Dad nefol,

**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.**

Amen.

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyhch,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Parhawn ar ein traed

Gloria in Excelsis Deo

Gloria in excelsis Deo. Et in terra pax hominibus bonae voluntatis. Laudamus te, benedicimus te, adoramus te, glorificamus te, gratias agimus tibi propter magnam gloriam tuam, Domine Deus, Rex caelestis, Deus Pater omnipotens. Domine Fili unigenite, Iesu Christe, Domine Deus, Agnus Dei, Filius Patris, qui tollis peccata mundi, miserere nobis; qui tollis peccata mundi, suscipe deprecationem nostram. Qui sedes ad dexteram Patris, miserere nobis. Quoniam tu solus Sanctus, tu solus Dominus, tu solus Altissimus, Iesu Christe, cum Sancto Spiritu: in gloria Dei Patris. Amen.

Cyfieithiad

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw. Ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd. Moliannwn di, bendithiwn di, addolwn di, gogoneddwn di, diolchwn i ti am dy fawr ogoniant. Arglwydd Dduw, Frenin nefol, Dduw Dad Hollalluog. O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist; O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, sy'n dwyn ymaith bechod y byd, trugarha wrthym; tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, derbyn ein gweddi. Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd; ti yn unig yw'r Arglwydd; ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

Cerddoriaeth

Missa Brevis, Giovanni Pierluigi da Palestrina (c.1525-1594)

Parhawn ar ein traed

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

Hollalluog Dduw, erfyniwn arnat ganiatáu, megis yr ydym yn credu i'th uniganedig Fab esgyn i'r nef, felly fod i ninnau ym meddylfryd ein calon ymddyrfachafael yno, a thrigo'n wastad gydag ef, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

Amen.

Eisteddwn

Gair

Salmyddiaeth



∇ Dyrchwch, byrth, eich pennau'n uchel, ddorau bythol, dyrchwch chwi!

R: Dyrchwch, byrth, eich pennau'n uchel, ddorau bythol, dyrchwch chwi!

Eiddo'r Sanctaidd Un yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo; oherwydd y Bythol Un a'i sylfaenodd ar y moroedd a'i sefydlu ar yr afonydd.

Pwy yw'r Un sy'n teyrnasu mewn gogoniant? Y Bythol Un, cryf a chadarn, y Bywiol Un, cadarn mewn rhyfel. Pwy yw'r brenin gogoniant hwn? Duw y Lluoedd, y Sanctaidd Un sy'n teyrnasu mewn gogoniant.

R: Dyrchwch, byrth, eich pennau'n uchel, ddorau bythol, dyrchwch chwi!

Pwy a esgyn i fynydd y Bywiol Un a phwy a saif yn manau sanctaidd? Y glân eu dwylo a'r pur o galon, y rhai sydd heb osod eu meddwl ar dwyll a heb dyngu'n gelwyddog.

Fe dderbyniant fendith gan y Sanctaidd Un a chyfiawnder gan Dduw eu hiachawdwriaeth. Dyma'r genhedlaeth sy'n ei geisio, sy'n ceisio wyneb Duw Jacob.

R: Dyrchwch, byrth, eich pennau'n uchel, ddorau bythol, dyrchwch chwi!

Salm 24
Cerddoriaeth
Simon Ogdon

Darlleniad

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at yr Effesiaid.

Garedigion: O'r pryd y clywais am y ffydd sydd gennych yn Iesu, Sanct Duw, ac am eich cariad tuag at yr holl saint, nid wyf fi wedi peidio â diolch amdanoch, gan eich galw i gof yn fy ngweddiau. A'm gweddi yw, ar i Dduw ein Gwardwr Iesu Grist, Tad y gogoniant, roi i chwi, yn eich adnabyddiaeth ohono ef, yr Ysbryd sy'n rhoi doethineb a datguddiad. Bydded iddo oleuo llygaid eich deall, a'ch dwyn i wybod beth yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn ei alwad, beth yw cyfoeth y gogoniant sydd ar gael yn yr etifeddiaeth y mae'n ei rhoi i chwi ymhlith y saint, a beth yw aruthrol fawredd y gallu sydd ganddo o'n plaid ni sy'n credu, y grymuster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist pan gyfododd ef oddi wrth y meirw, a'i osod i eistedd ar ei ddeheulaw yn y nefolion leoedd, ymhell uwchlaw pob tywysogaeth ac awdurdod a gallu ac Arglwyddiaeth, a phob teitl a geir, nid yn unig yn yr oes bresennol, ond hefyd yn yr oes sydd i ddod. Darostyngodd Duw, Tad y gogoniant, bob peth dan ei draed ef, a rhoddodd ef yn ben ar bob peth i'r Eglwys; yr Eglwys hon yw ei gorff ef, a chyflawniad yr hwn sy'n cael ei gyflawni ym mhob peth a thrwy bob peth.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Effesiaid 1:15-23

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



☩ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. ☩ **Haleliwia. Haleliwia.**
Haleliwia. ☩ Gosododd Duw Dad Grist i eistedd ar ei
ddeheulaw yn y nefolion leoedd. ☩ **Haleliwia. Haleliwia.**
Haleliwia. ☩ Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac
fe'i dygwyd i fyny i'r nef. ☩ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Bryd hynny: Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion,
"Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthy ch pan oeddwn
eto gyda chwi: ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni
sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi
a'r salmau." Yna agorodd eu meddyliau, iddynt ddeall yr
Ysgrythurau. Meddai wrthynt, "Fel hyn y mae'n ysgrifenedig:
fod y Meseia i ddioddef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar
y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant
pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd,
gan ddechrau yng Nghaersalem. Chwi yw'r tystion i'r pethau
hyn. Ac yn awr yr wyf fi'n anfon arnoch yr hyn a addawodd fy
Nhad; chwithau, arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi
oddi uchod â nerth." Aeth â hwy allan i gyffiniau Bethania. Yna
cododd ei ddwylo a'u bendithio. Wrth iddo'u bendithio, fe
ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef. Wedi iddynt ei
addoli ar eu gliniau, dychwelsant yn llawen iawn i Gaersalem. Ac
yr oeddent yn y deml yn ddi-baid, yn bendithio Duw.

Dyma Efengyl ein Gwardwr.

Moliant i ti, O Grist.

Luc 24:44-53

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth yn y gyfres “Cristnogaeth a...”

Cristnogaeth a gwyddoniaeth

Mae ffydd, gobaith a chariad yn wirioneddau tragywyddol ac yn rinweddau bythol; ac y mae gwreiddiau ein crefydd yn ddwfn ac yn hynafol, fel seiliau eglwysi ein hesgobaeth a'u cysylltiad byw â Seintiau Celtaidd y canrifoedd cynnar. Ond fe'n gelwir hefyd i argyhoeddiad byw, ac i ddeall ffyrdd ffydd, gobaith a chariad yn ein bywydau ac er mwyn ein teuluoedd, ein ffrindiau a'n cymunedau heddiw. Daw pregethau'n cyfres â'n hargyhoeddiadau crefyddol wyneb yn wyneb â chwestiynau byw a phynciau cyfoes, a'r sbarc yn y cyfarchiad.

Yr Is-Ddeon

Angylion fry sy'n syllu'n syn
Ar gig a gwaed yn wych fan hyn,
Can's corff s'di achub cyrff o'r bedd,
A Duw o gig a gwaed 'n y nef.

Geiriau

Lladin o bumed ganrif

Cyfieithiad

John Mason Neale (1818-1866)

Efelychiad

Siôn B. E. Rhys Evans

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Y O Dduw, yn dy drugaredd,

R **Gwranddo ein gweddi.**

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

Y ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R **A chyfodi mewn gogoniant.**

Y Dad trugarog,

R **Derbyn y gweddiau hyn**

er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.

Amen.

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

Cymun

Emyn



Yr hwn gan ing fu'n chwysu
y gwaed yn ddfafnau mawr,
y gŵr fu gynt yn trengu ar Groes rhwng nef a llawr;
yr un fu gynt yn gorwedd yn fud mewn distaw fedd,
sydd heddiw ar yr orsedd mewn gogoneddus wedd.

Y t'wysog mawr gyfododd heb ofn na braw na brys,
adeiniog lu y nefoedd a'i dwg i mewn i'w lys.
Dyrchefwch byth, dyrchefwch! Agorwch, ddrysau draw!
A brenin y gogoniant i'w ddwyfol byrth a ddaw.

Nid preseb ac nid croesau, nid bedd na dirmyg mwy,
nid llefain cryf na dagrau, na chwys na chlais na chlwy';
gogoniant ar ogoniant, am ddioddef is y nef,
anrhydedd ac addoliant byth roddir iddo ef.

Geiriau

Robert Roberts (1774-1849)

Cerddoriaeth | "Pen yr Yrfa"

William James (1877-1964)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A ymddangosodd, ar ôl ei atgyfodiad, i'w Apostolion, ac esgyn yn eu gwydd i ogoniant i ddarparu lle i ni, fel, yn y lle y mae ef, y byddwn ninnau hefyd.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctus, Sanctus, Sanctus, Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt caeli et terra gloria tua. Hosanna in excelsis.

✠ Benedictus qui venit in nomine Domini. Hosanna in excelsis.

Cyfieithiad

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf. / ✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Missa Brevis, Giovanni Pierluigi da Palestrina (c.1525-1594)

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠



**Cawn ar fyr gyfarfod fry, Haleliwia!
gyda'r glan gadwedig lu; Haleliwia!
lle mae holl angylion nef, Haleliwia!
byth yn ei glodfori ef. Haleliwia!**

Geiriau
Lladin o 14eg ganrif
Efelychiad
Benjamin Francis (1734-1799)
Cerddoriaeth | "Llanfair"
Robert Williams (1781-1821)

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deurn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewydd ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewylllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. **Amen.**

Tangnefedd

Dy gorff atgyfodedig yn ein plith adwaenir yn nhorriad y bara; dy glwyfau gogoneddus, o ba le y llifodd gwaed, yn nodau dy gariad; dy eiriau inni o dangnefedd yn gryfach nag angau.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: dona nobis pacem.

Cyfieithiad

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Missae Brevis, Giovanni Pierluigi da Palestrina (c.1525-1594)

Cymuno

✠ Haleliwia. Crist, ein Pasg, a aberthwyd drosom.

Felly, boed inni ddathlu'r ŵyl. Haleliwia.

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

Ascendit Deus in jubilatione, et Dominus in voce tubae, Alleluia.
Dominus in caelo paravit sedem suam, Alleluia.

Cyfieithiad

*Esgynnodd Duw gyda bloedd, y Sanctiadd
Un gyda sain utgorn, Haleliwia. Gosododd y
Sanctaidd Un ei orsedd yn y nefoedd, Haleliwia.*

Geiriau

Salmau 47:5; 103:19

Cerddoriaeth

Peter Philips (c.1560-1628)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

The image shows a musical score for a motet. It consists of six staves of music. The first staff is a single melodic line. The second staff is a second melodic line. The third, fourth, fifth, and sixth staves are a four-part vocal harmony (SATB). The music is in G minor (three flats) and 4/4 time. The melody is based on the hymn 'Alleluia' by Peter Philips. The score ends with a double bar line.

Cydlawenhawn, cyfododd Crist o'i fedd,
ac ar ein daear torrodd gwawr o hedd;
i'r lan y daeth, ac ni all farw mwy,
mae heddiw'n harddach am ei farwol glwy':
mae anfarwoldeb yn ei wŷneb ef,
ac yn ei law awdurdod ucha'r nef.

**Cydlawenhawn, fe ddaeth angylaidd lu
i'w hebrwng adref i'w orseddfainc fry:
mewn cwmwl gwyn yr aeth o olwg byd,
ond cofio mae am Galfarî o hyd:
cans ar ein hachub mae ei feddwl ef,
a'n hachub ninnau ydyw gwaith y nef.**

**Cydlawenhawn, y mae i ninnau waith
i gofio'i achos drwy y ddaear faith;
ac wedi byw i brofi gallu'r groes
cawn weld ei annwyl wedd ar ddiwedd oes:
mewn gwynfyd pur cawn ganu "Iddo ef!"
a diolch daear fydd yn llanw'r nef.**

Geiriau

Elfed (Howell Elvet Lewis, 1860-1953)

Cerddoriaeth | "Finlandia"

Jean Sibelius (1865-1957)

Parhawn ar ein traed

Ymadael

Diffodd Cannwyll y Pasg

Gweddïwn.

ODduw, Dad y gogoniant, dyrchefaist dy unig Fab Iesu Grist â buddugoliaeth fawr i'th deyrnas yn y nefoedd: erfyniwn arnat beidio â'n gadael yn ddigysur, ond anfon dy Ysbryd Glân i'n nerthu ni a'n dyrchafu i'r fan lle'r aeth ein Hiachawdwr Crist o'n blaen, yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Amen.

Bendith a Gollyngdod

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Bydded i Grist ein Brenin dyrchafedig dywallt arnoch ei roddion helaeth i'ch bywiocáu yn ei wasanaeth a'ch coroni gydag ef yn ei ogoniant; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.


Awn ymaith mewn tangnefedd. Haleliwia. Haleliwia.

Yn Enw Crist. Haleliwia. Haleliwia.


Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Tôn Glychau, Louis Vierne (1870-1937)



Hysbys



Clas

Nos Lun am 6.30pm ar Zoom

Datblygodd yr eglwys Geltaidd ganoloesol sefydliad nodedig, a elwid y clas – cymuned o glerigion yn cydfyw yn golegol o gylch eglwys, ac yn ymledu i bregethu a dysgu ledled ardal eang. Rydym yn benthycu'r term Clas fel teitl ar gyfer fforwm Zoom gyda'r nos, i roi cyfle inni ddysgu, trafod a myfyrio.

22 Mai | Deon Llandaf

Mae'r Tra Barchedig Richard Peers yn gyfaill i'r Gadeirlan ers iddo ymuno â ni yn bregethwr gwadd ar Ddygwyl Corpus Christi yn 2022, pan oedd yn Is-Ddeon Cadeirlan Christ Church yn Rhydychen. Ers hynny, mae wedi symud i fod yn Ddeon Llandaf. Byddwn yn siarad ag ef am ei fywyd a'i alwedigaeth, ac am genhadaeth y Gadeirlan y mae bellach yn ei harwain.

ID cyfarfod Zoom yw 857 3402 4520 a'r cod pas yw 606397, a bydd yr ystafell Zoom ar agor o 6.15pm.

Datganiadau Paned

Pob dydd Iau

11.15am am 45 munud

Paned a chacen o 10.45am

25 Mai | Alys Bailey-Wood | Telyn

Yn ffefryn yn ein cyfres o ddatganiadau, y bydd yn ei chofio o berfformiadau'r *Ceremony of Carols* gan Britten, mae Alys yn gyn-fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor.

1 Mehefin | Alice Caldwell | Soprano

Mae Alice yn Ysgolhaig y Gân yng Nhôr y Gadeirlan tra'n astudio Sŵoleg yn y Brifysgol. Bydd Alice yn cyflwyno rhaglen sy'n canolbwyntio ar weithiau gan gyfansoddwyr y Baróc.

8 Mehefin | Harry Sullivan | Organ

Mae Harry wedi bod yn Ysgolhaig yr Organ yn y Gadeirlan am ddwy flynedd. Bydd ei ddatganiad yn cynnwys gweithiau ar gyfer yr organ wedi'u hysbrydoli gan gerddoriaeth cerddorfaol, gan gynnwys *Rhagarweiniad*, *Passacaglia a Ffiwg* gan Healey Willan.

Cyfarfod Cynulledifaol

Cynhelir ein Cyfarfod Cynulleidfaol nesaf, gyda ffocws ar gyllid y Gadeirlan, nos Iau 6 Gorffennaf am 6.30pm.

Yr wythnos

Heddiw | Today

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Tomkins;
Gwasanaeth Hywrol yn E | Evening Service in E, Murrill; God is gone up, Finzi

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00am Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad | Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

28 Mai | Sul y Pentecost May | The Day of Pentecost

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun Gwynedd; Cooper; Tyrd,
Ysbryd Glân, Ogdon

11.00am Choral Holy Eucharist

Missa L'houra passa, Viadana;
Loquebantur variis linguis, Tallis

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Leighton;
Gwasanaeth Hywrol "Collegium
Regale" Evening Service, Tavener;
Come, Holy Ghost, Harvey

Ein gweddi

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; John Evans; Kathy Guy; John Osbourne; Amy Jerproni; Luke Southall; Greg Davies; Colin Hillman; James Charles; Inez "Daisy" Rochester; Katherine Guy; Giuseppina de Giovanni; Maura Barker; Mary Fagan

A fu farw'n ddiweddar Colin Jones; Robert Shane Griffiths; Vivian Mary Barraclough; John Owen; Denise Thompson; Eleonora Fanfani

Gŵyl goffa —

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004. Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae delwedd y clawr yn fanylyn o "Y Dyrchafael" gan James Tissot (1836-1902) o gasgliadau Amgueddfa Brooklyn.

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

Deiniol Sant ym Mangor

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Y Parchedigaf Andrew T. G. John
Bishop & Archbishop of Wales
The Most Rev Andrew T. G. John

Is-Ddeon | Sub-Dean
Canon Siôn B. E. Rhys Evans
sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
Canon Tracy Jones
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk
Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

Joe Cooper
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
Martin Brown
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister
Naomi Wood
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk
Robert Jones
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos
Simon Taylor
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
Kelly Edwards
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator
Sam Jones
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu
Conservation & Development Project Manager
Simon Ogdon
simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus
Canon David Thomas Morris
davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritus | Canon Emeritus
Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones,
y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.
Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter
Kaye

Darllenydd | Reader
Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

